



## **Mae dylunio da yn ddeallus, a dyna sut y dylem adeiladu lleoedd i fyw ynddynt os ydym eisiau cartrefi gwell**

Carole-Anne Davies ydy Prif Weithredwr Comisiwn Dylunio Cymru

Mae dylunio da yn ddeallus. Mae'n gynaliadwy ac yn effeithlon o ran ei ddefnydd o adnoddau, gan gynnwys tir, ynni a deunyddiau ym maes dylunio ac adeiladu. Mae'n hirbarhaol, yn gadarn ac yn hyblyg. Bydd modd ei addasu ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau, a bydd yn hawdd i bawb eu defnyddio. Fel arfer, bydd dylunio da yn arwain hefyd at le i'w drysori, i ymfalchïo ynddo, i deimlo'n ddiogel ynddo ac i'w fwynhau. Dylai'r holl nodweddion hyn fod yn amlwg yn y lleoedd a grëwn ac yn benodol, lle bydd pobl yn treulio llawer o'u bywydau, yn magu teuluoedd, ac yn creu atgofion ac ystyr y gellir eu cario drwy genedlaethau. Ac eto, nid oes yr un o'r nodweddion uchod yn cael eu cynnwys yn y ffordd rydym yn adeiladu lleoedd i fyw ynddynt.

Mae newid yn anochel ac yn gyson. Ar hyn o bryd, mae'n gyflym, yn aflonyddgar ac yn ofidus i rai, ond yn gyffrous ac yn arloesol i eraill. Mae cartrefi wedi bod yn newid ers canrifoedd – ond ydyn nhw'n gwella? Ydyn ni'n adeiladu cartrefi da, yn y lle iawn, sydd yn gallu helpu i gefnogi ansawdd bywyd da i bobl?

Mae'n gyffredin yn niwydiant yr amgylchedd adeiledig i siarad am dargedau adeiladu tai, dyraniadau preswyl, gwerthoedd tiroedd, unedau, priffyrdd, cyfleustodau, a rhyw endid heb ei ddiffinio sydd yn cael ei alw'n 'fan agored cyhoeddus'. Nid yw pobl a'u hanghenion yn cael eu cynnwys. Mae effeithlonrwydd ynni ac adnoddau yn rhywbeth i'w 'drafnod yn nes ymlaen', tra y dylai hyn fod yn sylfaenol. Efallai bod gennym y model adeiladu tai yr ydym yn ei haeddu felly, ac mae ei gyfyngiadau'n golygu y bydd unrhyw newid o ran disgwyliad yn ychwanegu cost, yn rhy ddrud i'w gynnal, neu'n bygwth 'dengarwch adeiladau'. Mae cadwyn gyflenwi yn allweddol i'r model hwn, ond mae tarfu ar hon yn enw arloesedd yn heriol dros ben, a phrin bod unrhyw ymgysylltu parhaus â phenseiri a dylunwyr trefol yn y gadwyn gyflenwi.

Nid yw persbectif pensaernïol yn cael ei gynnwys rhyw lawer mewn adeiladu tai ar gyfer y boblogaeth gyffredinol nac ar gyfer yr angen am dai. Yn syml, nid yw dylunio'n cael ei gynnwys. Yn hytrach, mae'r mantra bod dylunio da yn costio mwy yn cael ei gyhoeddi'n gyffredinol. Os ydym eisiau adeiladu gwell cartrefi a lleoedd, rhaid i'r iaith, y sgwrs, a ffocws yr ysgogiad newid bob un. Yn gyflym. Ni all buddsoddiad cyhoeddus ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar swyddi adeiladu, ac eco-becynnau. Ni ddylid canu clodydd technegau adeiladu cyflym fel pe basent yn fwledi arian. Dylid canolbwyntio ar well cartrefi i bobl.

Gall dwy enghraifft helpu. Yn gyntaf, mae syrffwr adeiladu siartredig sydd wedi'i magu yng Nghymru, ac sydd bellach yn byw yng Nghaerwysg, wedi bod yn ffigwr arweiniol pwysig mewn cartrefi ac adeiladau PassivHaus ardystiedig sy'n ymateb i'r hinsawdd ers dros ddegawd. Emma Osmundsen yw Rheolwr Gyfarwyddwr Exeter City Living. Mae Cyngor Sir Caerwysg wedi sicrhau bod datblygu a darparu cartrefi ac adeiladau ynni isel, iach, sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd yn rhan o'u trefn arferol. Mae ffocws Emma ar 'gartrefi ac adeiladau sy'n gwella lles eu meddianwyr, ac sy'n cyfrannu at warchod ein planed a chreu cyfoeth i bawb' yn dangos bod sgwrs wahanol iawn yn digwydd. Yn nigwyddiad Comisiwn Dylunio Cymru a'r Good Homes Alliance Vanguard yn 2019, dangosodd Emma ei hymrwymiad i ymgysylltu'n gyson â dylunwyr da ac i sicrhau ansawdd ac effeithlonrwydd sylweddol o ganlyniad. Mae Emma yn rhannu ei chanlyniadau, yn ymgorffori'r dysgu ym mhob prosiect, a bydd yn dweud wrth bawb fydd yn gwranddo sut i'w wneud. Cadwch olwg amdani.

Yng Nghymru, mae Cymdeithas Tai Sir Fynwy ers peth amser, wedi bod yn gweithio'n agos ac yn gyson gyda Wayne Forster o Ysgol Bensaernïaeth Cymru, swyddogion awdurdodau lleol a gweithwyr tai proffesiynol. Manteisiodd eu cartrefi 'maint cywir' ar gyfer safleoedd anodd ar fuddsoddiad gan y Rhaglen Dai Arloesol yn 2018/19. Maen nhw'n gobeithio gwneud mwy yn 2020 drwy'r un bartneriaeth. Mae'r cartrefi o ansawdd uchel sy'n deillio o hynny ar safleoedd anodd yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r angen am dai acíwt a chyffredinol, ac yn helpu i leihau stigma. At hynny, mae eu cydweithrediad yn arwain at newid systemig, hirdymor – enghraifft brin o'r 'pum ffordd o weithio' sydd wedi'u hymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Mae'r enghreifftiau hyn yn newid y sgwrs, yn canolbwyntio ar anghenion pobl, ac yn dangos beth sy'n bosibl drwy ddylunio da.

Y realiti yw bod y ffordd rydym yn byw, a'r byd rydym yn byw ynddo yn newid - yn fwy cyflym nag y gallem erioed fod wedi'i ddychmygu. Mae angen i dai'r dyfodol newid hefyd, ac mae hynny'n gofyn am ddylunio da.

## **Ynghylch Carole-Anne Davies**

Yn dilyn ei hamser mewn diwydiant, roedd Carole-Anne gynt yn Gyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Gelfyddydau Bae Caerdydd ac yn Ymddiriedolwyr Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Mae hi'n Gadeirydd Sefydlu Ymddiriedolaeth Gregynog, yr elusen annibynnol sy'n berchen ar Neuadd ac Ystâd Gregynog yng nghanolbarth Cymru ac yn 2019, fe'i gwahoddwyd i Gadeirio Bwrdd Cyngori Allanol Ysgol Bensaernïaeth Cymru. Fel prif weithredwr sefydlu, sefydlodd fodel busnes cydgynhyrchiol yng Nghomisiwn Dylunio Cymru, gan integreiddio arbenigedd gweithwyr proffesiynol annibynnol, amlddisgyblaethol, yn y sector preifat gydag arbenigedd y tîm staff craidd. Graddiodd yn y dyniaethau, ac mae hi hefyd yn gyn-fyfyrwraig Cynhadledd Astudio Ryngwladol y Gymanwlad CSCLeaders, Rhaglen Weithredol Ysgol Harvard Kennedy, a Sefydliad Arweinyddiaeth Cynaliadwyedd Caergrawnt (CISL).